WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Darren Mepham
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 644A2013 |
| **Dyddiad** | 27 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Darren

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 27 Awst 2013, rhoddais fy marn ar ba un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar ba un a yw Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a chyhoeddi ei Adolygiad Blynyddol o Berfformiad 2012-13 (yr Adolygiad) cyn y dyddiad terfyn statudol sef 31 Hydref 2013.
- Mae'r Adroddiad yn rhoi darlun teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor yn 2012-13.
- Mae'r Adroddiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion perfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu ac wedi defnyddio enghreifftiau i ddangos canlyniadau rhai o'r enghreifftiau hyn o gydweithredu.

- Mae'r Adroddiad yn hygyrch i'r cyhoedd ac ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y cyngor. Mae'r Adroddiad hefyd ar gael fel copi caled o wneud cais ac mae crynodeb dwyieithog wedi cael ei gynhyrchu a gaiff ei ddosbarthu'n helaeth ar draws gwahanol leoliadau'r cyngor.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer gwella yn cael eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf ac yn adrodd ar hyn. Byddaf hefyd yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths – Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Steve Barry – Rheolwr, Rhanbarth y De

Helen Keatley – Arweinydd Archwilio Perfformiad

Darren Gilbert – Cyfarwyddwr KPMG